2. Rydym yn diolch i'r Pwyllgor am wahodd syniadau ar gyfer ei raglen waith ar gyfer 2016-21 ac i'r Cadeirydd am ei chyfweliadau ar y we yn cyflwyno'r maes.
3. Hoffem dynnu sylw'r Pwyllgor at fater brys parthed **yr iaith Gymraeg**, sef effaith cymalau Bil Cymru 2016-17 ar allu'r Cynulliad i ddeddfu parthed defnydd yr iaith Gymraeg gan Lywodraeth y Deyrna Unedig a'r sefydliadau sydd dan ei rheolaeth. Mae Atodlen 1 para 200 yn y Bil sydd gerbron Senedd San Steffan ar hyn o bryd yn ymddangos fel pe bai'n datganoli pob mater ynghylch yr iaith Gymraeg ac awdurdodau cyhoeddus, nes i chi ei ddarllen gydag Atodlen 2 cymal 11(1)(b) sy'n dweud na all y Cynulliad newid unrhyw gyfrifoldeb i Weinidogion y Goron (h.y. gweinidogion y DU) parthed yr iaith Gymraeg heb eu caniatâd.

Pan ychwanegir at hynny gynnwys Atodlen 4, sy'n rhestru rhai cyrff cyhoeddus fel "cyrff datganoledig", gyda'r gweddill i gyd yn gyrff wedi eu cadw, ac Adran 21 yr atodlen honno sydd yn tynnu'r rheidrwydd ar Weinidogion y Goron i ymgynghori â Gweinidogion Cymru parthed cyrff trawsffiniol a gedwir, mae hyn yn golygu cryn leihad yng ngallu'r Cynulliad i ddeddfu parthed defnydd yr iaith Gymraeg gan gyrff cyhoeddus nad ydynt wedi eu datganoli, a gallu Gweinidogion Cymru i ymwneud â phenderfyniadau (megis penderfyniadau parthed yr iaith) o ran cyrff trawsffiniol.

Wedi dweud hynny, gan na fyddai'r Bil yn ôl-effeithiol, byddai dyletswyddau cyfreithiol ar y Cyrff hyn dan Gynlluniau Iaith a Safonau Iaith o dan ddeddfwriaeth flaenorol yn parhau. Ni ellid deddfu i'w cryfhau, a byddai cymhlethdod rhyfeddol o gael tri system deddfwriaethol parthed y Gymraeg yn cyd-redeg. Gan fod y Bil yn cael ei drafod ar hyn o bryd, credwn fod hyn yn fater brys i'r Pwyllgor ymgymryd ag ef.

4. Yn y tymor hwy, byddem yn croesawu ymchwiliad gan y Pwyllgor i'r 'diffyg democrataidd' yng Nghymru oherwydd diffyg **cyfryngau cynhenid Gymreig**. Mae'r mater hwn wedi ei godi gan sawl mudiad, a chan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r BBC, yn y broses o adolygu Siarter y BBC, ond nid ydym yn ffyddio fod yr hyn a gynigir ar hyn o bryd gan y BBC yn ddigon i gwrdd â'r her. Roeddem fel eglwys yn poeni'n ddirfawr am diffyg gwedd Gymreig ar drafodaethau'r refferendwm ar yr holl gyfryngau a diffyg darlledu byw o'r Cynulliad hyd yn oed ar adegau pwysig a chyffrous (megis ethol Prif Weinidog ar ôl etholiad Mai 2016). Fe fu i Gynulliad blaenorol drafod y mater, a bu hyn yn fodd i gynnig nawdd i wefan Golwg 360. Tra'n croesawu hynny, credwn fod angen amrywiaeth o gyfryngau - yn y Saesneg, y Gymraeg ac mewn ieithoedd lleiafrifol - sy'n gallu cyflwyno a dehongli bywyd Cymru, a bywyd y byd trwy lygaid Cymreig, a byddem yn falch o gyfrannu at ymchwiliad o'r fath.
5. Rydym yn ymwybodol o faes gwaith eang a phwysig eich Pwyllgor, ac y bydd blaenoriaethu ymhlieth yr holl bynciau pwysig a ddaw i'ch sylw yn anodd. Dymunwn yn dda i chi yn eich gwaith ac edrychwn ymlaen at allu eich cynorthwyo, ac at elwa o ffrwyth eich llafur.

Document is Restricted

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales**  
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee**  
**Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor / Priorities for the Committee**  
**CWLC(5) PFC09: Ymateb gan Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru / Evidence from Sarah Rochira, Older People's Commissioner for Wales**

Thank you for the opportunity to respond to this consultation<sup>1</sup>. The Committee's remit is broad and all issues affect older people across Wales, however I would highlight these particular issues for your consideration:

**Older people's access to arts and cultural sites/events in Wales**

Whilst some older people can access arts and cultural sites/events in Wales, others cannot due to a number of reasons, including poverty and limited incomes (recent research by the Bevan Foundation suggests that poverty amongst older people is on the increase<sup>2</sup>), a lack of awareness of the opportunities available (particularly in some of Wales' most deprived communities), accessibility (a lack of public transport provision and acknowledgement of the need to be age and dementia friendly venues) and the costs of participation. What can be done to encourage an increasing number of older people to access these opportunities across Wales? Accessing such opportunities is good for the individual, good for the sites/events and it also contributes towards the Welsh Government's aim to be a dementia friendly nation and fulfil its commitments in its Strategy for Older People Phase Three i.e. participation in cultural activities<sup>3</sup>. Ensuring that older people can access arts and cultural sites/events complements the Ageing Well in Wales programme, particularly the aim to establish age friendly and dementia supportive communities across Wales<sup>4</sup>. An Inquiry would also be an opportunity to learn from good practice elsewhere e.g. dementia friendly National Museums Liverpool and Sporting Memories in Scotland<sup>5 6</sup>.

**The perception/portrayal of older people in the media**

As highlighted in my 'Say No to Ageism' campaign<sup>7</sup>, older people are often portrayed in the media as being frail and vulnerable, as being worthless and a drain on resources. Daily negative and derogatory language around older people means that society forms a strong and misguided view of older people, one that is often fuelled by the media. Through volunteering, caring, working

---

<sup>1</sup> <http://www.senedd.assembly.wales/mgConsultationDisplay.aspx?ID=217>

<sup>2</sup> <https://www.bevanfoundation.org/commentary/wales-poor-still-us/>

<sup>3</sup> <http://gov.wales/docs/dhss/publications/130521olderpeoplestrategyen.pdf>

<sup>4</sup> <http://www.ageingwellinwales.com/en/home>

<sup>5</sup> <http://www.liverpoolmuseums.org.uk/learning/projects/house-of-memories/>

<sup>6</sup> <http://www.sportingmemoriesnetwork.com/d1079/scotland>

<sup>7</sup> <http://www.olderpowlwales.com/en/ageism/say-no-to-ageism-overview.aspx>

and other ways, older people make a £1bn contribution to the Welsh economy every year, however this significant contribution is often overlooked or ignored, meaning that the negative portrayals of older people continue.

It is time to challenge the myths, stereotypes and misconceptions around older people, and instead celebrate their diversity and their significant contribution to the economy and communities across Wales. Do we have an ageist media in Wales? Are the negative and inflammatory headlines in newspapers and elsewhere helping to fuel this pernicious narrative of older people as a burden on society? Are these headlines influencing the way that our wider civil society perceives older people, and does it affect the way public services address the needs of older people i.e. only through the prism of health and social care and as one large homogenous group that are dependent on services? Is ageism seen as less serious in the media compared with racism and sexism? Changing attitudes and celebrating the diversity of older people and their contribution complements the Ageing Well in Wales programme and my outcomes-focused and asset-based approach to older people in Wales, as well as the national wellbeing goals within the Wellbeing of Future Generations (Wales) Act.

I hope that these issues provide the Committee with useful information. I look forward to working with you and others on these issues over the coming months and years. Should you require any further information then please do not hesitate to contact me.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales**  
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee**  
**Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor / Priorities for the Committee**  
**CWLC(5) PFC10: Ymateb gan Jaime Bevan, Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith Cymraeg / Evidence from Jaime Bevan, Chair Cymdeithas yr Iaith Cymraeg**

Diolch am gynnig y cyfle i awgrymu meysydd y gallai'r pwyllgor ystyried fel ymchwiliadau ar gyfer ei rhaglen waith. Rydym yn falch iawn bod pwyllgor gyda chyfrifoldeb penodol o graffu ar bolisi iaith y Llywodraeth.

Ymysg y materion y gallai'r pwyllgor ystyried y mae'r canlynol:

i. Addysg Gymraeg - Addysg Ail iaith ac Adroddiad yr Athro Sioned Davies

Mae'r Llywodraeth ei hunan yn credu bod sicrhau bod niferoedd sylweddol uwch yn dod allan o'r gyfundrefn addysg yn rhugl eu Cymraeg yn gwbl ganolog i'w hymdrehchion i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae bellach yn dair blynedd ers i'r Athro Sioned Davies gyhoeddi ei hadroddiad a alwodd am newidiadau radical oherwydd y safonau isel iawn o ran dysgu Cymraeg fel ail iaith. Byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r pwyllgor yn craffu'n fanwl ar waith y Llywodraeth o ran gweithredu'r argymhellion. Ymhellach, mae cwestiynau i'w gofyn yn ogystal am Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg newydd y Llywodraeth gan fuodd yr un blaenorol yn weithredol ar gyfer y cyfnod 2010-15.

ii. Strategaeth iaith newydd y Llywodraeth

Mae'r Llywodraeth yn cynnal ymgynghoriad ar hyn o bryd am ei gweledigaeth i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg, byddai'n briodol i'r pwyllgor gynnig ei sylwadau i'r Llywodraeth. Mae lle hefyd i wneud asesiad ynghylch perfformiad y Llywodraeth o ran gweithredu'r Strategaeth iaith bresennol sy'n dod i ben ddechrau'r flwyddyn nesaf er mwyn dysgu gwersi. Byddai'n gyfle hefyd i asesu record y Llywodraeth o ran gweithredu argymhellion y nifer sylweddol o adroddiadau a'u comisiynwyd a'u cyhoeddwyd ganddi ers canlyniadau Cyfrifiad 2011.

iii. Buddsoddi yn y Gymraeg – effaith y gyllideb

Mae angen craffu'n fanwl ar y tanwariant sylweddol ar y Gymraeg yng nghyllidebau prif-fwrdd y Llywodraeth, megis prentisiaethau ac addysg i oedolion yn y gymuned. Yn ogystal, dros y blynnyddoedd diweddar, gwnaed toriadau difrifol iawn i nifer o brosiectau pwysig i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae

cysylltiad rhwng buddsoddiad a chyflwr iaith, a ni roddir digon o sylw i'r materion hyn ym mhrosesau llunio cyllideb Llywodraeth Cymru.

iv. Ehangu Defnydd y Gymraeg ar blatfformau digidol ac yn y maes darlledu

Mae twf aruthrol wedi bod mewn gwasanaethau Saesneg ers degawdau ond toriadau i wasanaethau Cymraeg. Mae'r dewis o sianeli teledu Saesneg ar gael yng ngwledydd Prydain wedi tyfu ymhell dros 450 ac mae hefyd dros 600 o orsafoedd radio yn darlledu yn Saesneg. Er y twf hwn dros y blynnyddoedd diwethaf, dim ond un sianel teledu ac un orsafr radio Cymraeg sydd o hyd, y lleiafswm sy'n cael ei ganiatáu o dan gytundeb Ewropeaidd ar ieithoedd llai. Mae lle i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru arwain mwy yn y maes a byddai ymchwiliad gan y pwylgor yn y ffordd o wneud hynny.

v. Effaith y Gyfundrefn Gynllunio ar y Gymraeg

Cafodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ei basio'r llynedd gyda newidiadau o bwys i'r Gymraeg. Mae disgwyl i'r Llywodraeth gyhoeddi ei Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 newydd yn ddiweddarach eleni. Yn ogystal, ceir cwynion cynyddol ynghylch effaith ddifffyg tai fforddiadwy ar y Gymraeg a'r diffyg enwau lleoedd Cymraeg ar dai a datblygiadau newydd. Byddai'n amserol i'r pwylgor edrych ar y maes yma er mwyn adolygu effaith y newidiadau cyfreithiol a pholisi yn y maes.

vi. Economi a'r Iaith

Rydym wedi ysgrifennu at y pwylgor economi gan awgrymu eu bod yn edrych at y maes hwn. Credwn fod modd ystyried y mater hwn gan hefyd adolygu gweithredu'r Llywodraeth yn sgil adroddiad a gyhoeddwyd gan weithgor a gadeiriwyd gan Elin Rhys o'r cwmni Telesgop. Amcangyfrifir bod y Fasgeg gwerth 4.2% o GDP economi Cymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg, a gallai Cymru elwa'n llawer iawn mwy yn economaidd o'n hiaith genedlaethol unigryw.

vii. Cymraeg i Oedolion

Mae pryderon cynyddol am effaith y newidiadau yn y maes ar staff a darpariaeth ers sefydlu'r endid cenedlaethol newydd ynghyd â thoriadau difrifol a wnaed i'r sector gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol wedi cyhoeddi strategaeth newydd a gallai'r pwylgor edrych ar y maes yn sgil y newidiadau diweddar hyn.

viii. Cryfhau Mesur y Gymraeg 2011 gan gynnwys y gyfundrefn Safonau a chynnwys gweddill y sector breifat

Can fod y Llywodraeth newydd wedi cyhoeddi eu bod nhw'n bwriadu cryfhau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, byddai'n synhwyrol i'r Cynulliad edrych ar waith craffu cyn-ddeddfu yn ogystal â'r broses ffurfiol o ystyried deddfwriaeth arfaethedig y Llywodraeth.

Yn sicr, mae llawer iawn o feysydd y gallai'r pwylgor eu hystyried. Hyderwn y byddwch yn manteisio ar y cyfle euraid sydd gennych i graffu ar waith y Llywodraeth a chyfrannu at sicrhau twf y Gymraeg dros y blynnyddoedd i ddod.

Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda'r pwylgor wrth iddo ymwneud â'r gwaith pwysig sydd o'i flaen dros y blynnyddoedd nesaf.

Document is Restricted

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales**  
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee**  
**Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor / Priorities for the Committee**  
**CWLC(5) PFC11: Ymateb gan Cwlwm Cyhoeddwyr Cymru / Evidence from Cwlwm Cyhoeddwyr Cymru**

**Sylwadau Cwlwm Cyhoeddwyr Cymru at sylw Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan nodi'r materion y dylid edrych arnynt yn ystod y Pumed Cynulliad (2016-2021)**

Hoffai Cwlwm Cyhoeddwyr Cymru gyflwyno'r sylwadau a ganlyn at eich sylw caredig. Mae'r Cwlwm yn gymdeithas o brif gyhoeddwyr iaith Gymraeg Cymru ac o'r farn fod ein ein maes gwaith yn un sydd yn allweddol i ffyniant bywyd diwylliannol a threftadaeth Cymru.

Maent yn ffrydiau / themâu trosfwaol syml, ond arwyddocaol, sydd yn gyffredin i waith holl aelodau'r Cwlwm ac nid ydynt, felly, yn bwyntiau manwl a phenodol iawn fel y cyfryw. Serch hynny, maent oll yn bwyntiau, neu'n feysydd, sydd o bwys i'r sector gyhoeddi ac, o ganlyniad, yn feysydd yr hoffwn i'r Pwyllgor eu hystyried fel rhan o'ch gwaith dros y 5 mlynedd nesaf.

Rydym yn nodi mai dyma'r pwyntiau a gyflwynwyd hefyd at sylw Panel Llenyddiaeth a Chyhoeddi Llywodraeth Cymru, fydd, dan Gadeiryddiaeth yr Athro Medwin Hughes, yn cyflwyno eu hadroddiad yn yr hydref.

**1. Y SECTOR GYHOEDDI**

Dylid ystyried y diwydiant cyhoeddi iaith Gymraeg, a'r cyhoeddwyr sydd yn rhan ohono, fel sector o waith - sector sydd yn cyflogi oddeutu 1,000 o bobol, mewn swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol amrywiol, ar hyd a lled y wlad. Dymuniad y sector yma yw datblygu'n perthynas gyda Llywodraeth Cymru, fydd yn ein galluogi i ateb, ac ymateb, i ofynion Llywodraethol a pholisïau Llywodraeth y dydd dros gyfnod o amser a thrwy hynny greu partneriaeth ffrwythlon rhwng y sector a'r Llywodraeth.

**2. GWELLA ISADEILADEDD TECHNEGOL A THECHNOLEG GWYBODAETH**

Barn y Cwlwm yw y dylid buddsoddi yn ymarferol (drwy fuddsoddiad ariannol) ac yn strategol yn isadeiladedd TG y sector gyhoeddi, fel y gall y sector weithredu'r fasnachol gystadleuol a chynnig gwasanaeth gwell i'n cwsmeriaid. Gall hyn gynnwys rhagor o fuddsoddiad ariannol yn systemau Cyngor Llyfrau Cymru; rhyddhau arian ar gyfer cyhoeddwyr a masnachwyr unigol (ayyb) ac, ar lefel ehangach, drwy barhau i wella argaeledd band-llydan, cyflym, ar hyd a lled Cymru.

### **3. GWERTH CYNGOR LLYFRAU CYMRU**

Rydym o'r farn glir fod y gwasanaethau craidd a gynigir gan y Cyngor, ac ystod y gwasanaethau hynny, yn rywbeth y dylid ei warchod a'i ddathlu. Mae'r Cyngor yn cynnig cefnogaeth arbenigol, anhepgorol ac amhrisiadwy i'r diwydiant cyhoeddi iaith Gymraeg. Nid yw'r Cyngor heb ei wendidau ond mae'r cyhoeddwyr yn llwyr werthfawrogi'r gefnogaeth gadarn ac ymarferol a geir gan y Cyngor drwy holl ystod y broses gyhoeddi. Mae'r hyn a gynigir a chyflawnir ganddynt yn rhan greiddiol o weithgaredd pob tŷ cyhoeddi ac mae aelodau'r Cwlwm yn dymuno gweld hynny'n parhau.

### **4. DATBLYGU CYFLEODD MASNACHU**

Mae'r Cwlwm yn awyddus i weld datblygu cyfleoedd masnachu (i lyfrau Cymraeg) mewn modd bwriadus a strategol e.e. drwy sicrhau man gwerthu llyfrau o Gymru mewn lleoliad amlwg yng nghanol ein prifddinas ynghyd ag ymgyrchoedd marchnata'r diwydiant tu allan i Gymru (e.e. presenoldeb amlwg, graddfa fawr, yng Ngŵyl Lyfrau Llundain, dyweder). Ar lefel gyffredinol, ein barn yw y dylid targedu a meithrin cynulleidfa oedd penodol drwy ddatblygu proffil y sector mewn digwyddiadau a lleoliadau strategol, yng Nghymru a thu hwnt, boed hynny law yn llaw, neu fel rhan o ymgyrchoedd a blaenoriaethau presennol Llywodraeth Cymru, neu fel canghennau ategol.

### **5. DEUNYDD ADDYSGOL**

Dymuniad y Cwlwm yw gweld cyhoeddi rhagor o ddeunydd addysgol - llyfrau yn arbennig, gan i dystiolaeth diweddar adnabod pwysigrwydd darllen llyfrau (yn hytrach na defnyddio dulliau a theclynnau technolegol) wrth hybu llythrennedd. Yn benodol felly, byddai'r Cwlwm am weld cefnogaeth Llywodraeth Cymru wrth gomisiynu llyfrau pwrpasol a safonol fyddai'n ateb y gofynion cwricwlaidd a hybu llythrennedd. Mae'r lleihad yn y nifer o lyfrau addysgol a gyhoeddir (a'r cwmp mewn gwerthiant yn ei sgil) yn faes sydd o gonsyrn mawr i sawl aelod o'r Cwlwm, nid yn unig o safbwyt masnachol ond hefyd o ran y diffygion presennol yn y ddarpariaeth addysgol.

## 6. DATBLYGU TALENT

Yn olaf, pwynt cyffredinol iawn ynglŷn â phwysigrwydd datblygu talent o fewn y sector gyhoeddi - boed hynny'n dalentau creadigol neu gynorthwyo. Er mwyn denu'r goreuon i'r maes, eu cadw yn ddo a'u datblygu ar gyfer llwyfannau byd-eang, byddai'n ddoeth ac amserol lansio trafodaeth ar y dulliau priodol o feithrin a datblygu ein talentau presennol, ac adnabod a meithrin talentau newydd, drwy ddulliau hyfforddiant amrywiol: prentisiaethau, secondiadau, grantiau teithio ayyb

Document is Restricted

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales  
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language  
and Communications Committee  
Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor / Priorities for the Committee  
CWLC(5) PFC12: Ymateb gan Danny KilBride, Director for Trac Wales /  
Evidence from Danny KilBride, Cyfarwyddwr Trac Cymru**

I welcome the progress made in developing this committee and I note that you are still seeking subjects and areas that this committee might want to look at. May I suggest that one area that is largely overlooked and would merit proper scrutiny is how we as a nation support and encourage the unique, indigenous artforms of Wales.

trac - traddodiadau cerdd cymru : music traditions wales ltd - works with our Arts Council, Lottery funders, our national libraries and museums, local government authorities, national societies, Urdd Gobaith Cymru, Eisteddfod Genedlaethol, youth services teams, UKTI, international conferences and showcases, professional and amateur musicians and we do this in both English and Welsh. We run three flagship residential events aimed at young people and intergenerational work and run projects that tackle poverty and address a number of existing government initiatives. Far from seeing a moribund craft practise that is bent on historical reproduction, we see a medium for cultural interchange, regeneration, professional excellence, economic benefits and the capital that much of our tourism industry exploits. Our work bringing musicians to new markets has resulted in tours of the world by welsh folk acts and we are invited to events such as Bogota Music Market in Colombia to share our expertise around the world.

However, Wales as a country has no strategy for this. There is no remit from the Government, its ASPBs and departments to address this nor is this field of activity built into our external relations department as way to develop relationships across the world through culture. Audience research published by the Arts Council of Wales shows that public interest in folk, roots and world music is more than double that of Classical music yet the measurable support that reaches our traditional arts, its promoters, musicians and music businesses barely comes to the equivalent of a fortnight's spending on supporting the Welsh National Opera. Naturally, we would like to see change in this area but we can only achieve this by working across public life to create a new consensus.

The Well Being of Future Generations Act includes clear directions for protecting and sustaining the unique cultural characteristics of Wales which will include our languages, traditional arts and so much more. We feel it is only proper that this committee has a specific remit to look at our country's

common cultural heritage and ways of increasing awareness, participation and professional excellence within that artform. This committee is uniquely placed to offer scrutiny, challenge prejudices and recommend actions. Will you please ask the committee to consider how Wales supports its traditional and unique cultural arts as part of its core remit?

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales**  
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee**  
**Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor / Priorities for the Committee**  
**CWLC(5) PFC13: Ymateb gan Richard Bellamy, Pennaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri yng Nghymru / Evidence from Richard Bellamy, Head of the Heritage Lottery Fund in Wales**

**The National Lottery changing lives**

Thank you for the opportunity to contribute to the consultation on the priorities of the Committee during the Fifth Assembly.

Heritage Lottery Fund (HLF) sees heritage as broad and inclusive, defined by those seeking funding in order to sustain what they value from the past and want to hand on to the future. In this way our funding helps to tell the stories of the many communities that make up our country today and of our diverse, but shared, heritage. We challenge projects to go beyond the traditional audience for heritage to reach those who are not well-represented and overcome the barriers experienced by people because of their disability, age, poor health, cultural background, lack of educational opportunities or difficult financial circumstances.

We are also clear that for many, the impact of National Lottery funding, and engaging with heritage, is a personal one. There are countless examples of how HLF funding changes people's lives for the better. People like Angela Beacham whom started her own business as a result of volunteering at Cyfarthfa Castle in Merthyr Tydfil or Tracy Norris, who moved her GP practice from Hampshire to Wales because she was so enthralled by the HLF-funded osprey observatory project where she was also working as a volunteer. Given that it is the National Lottery that makes these stories possible, HLF has recently launched a new campaign to tell some of these stories under the banner of 'Changing Lives'.

National Lottery has come to play an increasingly critical role in the funding of culture as other public funding sources reduce.

We would welcome the opportunity to discuss our work further with you.

**About the Heritage Lottery Fund**

The Heritage Lottery Fund (HLF) was created in 1994 under the National Lottery Act and distributes money raised by the National Lottery to support projects involving the national, regional and local heritage of the United Kingdom. We operate under the auspices of the National Heritage Memorial Fund (NHMF). As a UK wide arm's length public body, we receive Policy Directions from the UK Government as well as observing Policy Directions from the Welsh Government.

HLF invests in the full breadth of the UK's heritage, from museums, libraries and archives, to historic buildings and industrial sites, parks, landscape and

natural heritage, and the intangible – people's memories and cultures. We regard 'culture' as referring to both arts and heritage.

Our approach makes 'a lasting difference for heritage and people', putting benefits for people, including National Lottery players (the unique source of our income), at the heart of the projects we fund.

We can draw on over 21 years' experience and over £343 million of National Lottery investment in over 2,400 projects throughout Wales. We have developed as an organisation by listening to what people want us to do through regular consultations, and undertaking research and evaluations to provide evidence for our approach. We have a five-year Strategic Framework which is flexible to enable us to respond to the challenges facing the UK's heritage, and we introduce new initiatives and interventions as new needs and opportunities emerge.

**Invitation to contribute to the consultation:** HLF's views on the priorities for the Committee

### The Funding Environment

- We want to see a vibrant and confident heritage sector, comprised of outward-facing organisations with the skills and capacity to sustain heritage, drawing on a broad base of funders and supporters, and with deep roots in their communities.
- We know new funding models can help organisations overcome challenge. That is why we are helping organisations to become more enterprising and resilient (developing their fundraising, management and curatorial abilities), develop their skills further (craft skills, management skills and skills in the digital technologies) and attract new audiences (notably young people).
- In the new funding environment it is increasingly important to find innovative ways to sustain our heritage – that is why we are delivering new approaches like Heritage Enterprise – a grant scheme that breathes new life into old buildings, broadening audiences and engagement and attracting commercial investment.
- Cuts to local authority budgets mean that some parts of the sector face particular funding challenges: museums and galleries, archives, parks and open spaces and local conservation departments. Evidence suggests that local authority funding for heritage is being harder hit than other parts of the cultural sector. A complex picture is emerging across the UK.
- Given the important role that National Lottery funding now plays, the continued availability of this support for heritage is critical. The National Lottery is a great asset.

## **Young people**

- Young People have long been under-represented in heritage.
- We are currently building on the foundations of our successful Young Roots programme to create more opportunities for young people, including those outside formal education settings.
- We have committed to creating a new UK-wide £10m young people's initiative that will increase the ambition, scale and quality of youth engagement with heritage.

## **Skills**

- Investment in skills is a strategic priority for HLF. We have invested in targeted heritage skills programmes – Skills for the Future (SfF) and Training Bursaries – to deliver paid, high quality work-based training opportunities for new entrants to the workforce.
- We are currently delivering a third round of funding for SfF.
- In addition, the majority of our funding programmes provide opportunities to develop skills, and build up the management, capacity and infrastructure of cultural institutions.

## **Social and economic value of culture**

### **Economic impacts**

- Heritage tourism is driven by a very broad range of attractions. HLF's capacity to make large-scale strategic interventions in internationally recognised sites has transformed the heritage tourism infrastructure of the UK. HLF is currently the major funder of the development at St Fagans National History Museum.
- In 2013, HLF launched a new programme to tackle 'problem buildings': Heritage Enterprise (It directly addresses the 'market failure' experienced by many vacant historic buildings, providing gap funding needed to make this type of project economically viable).
- Heritage Enterprise complements our Townscape funding to help communities regenerate deprived towns and cities by improving the built historic environment in the heart of their communities – their high streets and town centres.

### **Social impacts**

8.5 We know the public support and value heritage, and endorse the use of National Lottery funding for heritage. Our research, 20 Years in 12 Places shows people think heritage makes us happier about where we live and should be put firmly at the heart of place-shaping: 80% say local heritage makes their area a better place to live; 81% say heritage is important to them personally. People also think heritage has improved in recent years: 64% of residents say local heritage has improved in the time they have lived in their area; 69% say that HLF

investment in their local area has been good or excellent use of National Lottery money.

## Digital technology

- The emergence of digital technology as a significant means to conserve, present, attract and engage audiences with heritage is of great importance to HLF and our projects. We aim to help the heritage sector take advantage of the opportunities offered and we encourage high quality work and innovation.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales**  
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee**  
**Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor / Priorities for the Committee**  
**CWLC(5) PFC14: Ymateb gan Mentrau Iaith Cymru / Evidence from Mentrau Iaith Cymru**

Mae Mentrau Iaith Cymru yn cydweithio â phartneriaid i ddatblygu Cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg sydd â'r potensial, trwy ei weithreadu'n llawn ac yn eang, i newid rhaglygon hir dymor y Gymraeg drwy:

- Datblygu'r Gymraeg fel catalydd economaidd
- Datblygu'r Gymraeg fel cyfrwng i ddatblygu economaidd ac adfywio
- Adnabod y galw am, ac ehangu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg
- Cyflysu'r angen efo cyfleoedd gwaith a hyfforddiant
- Adnabod a pherchnogi cyfleoedd economaidd

Credwn fod iechyd y Gymraeg yn ddangosydd cymdeithasol effeithiol o sut mae economi Cymru wedi cael ei ddatblygu dros y canrifoedd. Mae'r Cymry Cymraeg wedi bodoli fel cymdeithas ieithyddol a diwylliannol heb fawr o rym economaidd. Nid oes troedle economaidd digonol wedi bod i gynnig cynhaliaeth. Gwaith wedi'r cwbl mwy na dim sydd yn hoelio pobl lawr i ddarn o dir. Credwn os lwyddwn i wyrdroi sefyllfa'r Gymraeg byddwn hefyd yn creu economi a chymdeithas fwy cynaliadwy ac yn creu dyfodol hir dymor i'r Gymraeg.

Yn ôl gwaith ymchwil gan Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2010) ar ddemograffeg flynyddol siaradwyr Cymraeg, mae'r ffactorau sydd yn gwanhau sefyllfa'r Gymraeg yn deillio o ddiffyg cyfleoedd gwaith, yn benodol gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, sydd yn ei dro yn arwain at sefyllfa o allfudo o Gymru. Amcangyfrifwyd bod colled flynyddol o 3,000 o siaradwyr Cymraeg.

**"Around a third of 1991's 15-year-old Welsh-speakers had migrated to England by 2001."**

(Delyth Morris (2010) 'Welsh in the 21st Century', Cardiff; University of Wales Press).

Ar un llaw rydym yn dioddef allfudriad brawychus o bobl ifanc sydd yn medru'r Gymraeg, neu pobl ifanc sydd yn medru'r Gymraeg sy ddim yn ei defnyddio, tra ar y llaw arall rydym yn dioddef o ddiffyg gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn ein rhwystro i fyw ein bywydau beunyddiol trwy gyfrwng y Gymraeg. Ond credwn mai dyma ble mae un o brif wendidau ac un o brif obeithion y Gymraeg yn gorwedd.

Mae modd ini newid y sefyllfa. Mae Addysg Gymraeg – sydd ar gynnydd - yn creu mwy a mwy o siaradwyr bob blwyddyn ac mae modd cynyddu'r raddfa trosglwyddo iaith o un genhedlaeth i'r llall trwy gynlluniau fel Twf. Mae yna hefyd gynlluniau penodol gan gyrrff amrywiol i annog a hwyluso'r defnydd o'r iaith. Mae datblygiadau diweddar o ran y Gymraeg wedi rhoi statws i'r iaith. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cryfhau'r ddyletswydd ar gyrrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwn y Gymraeg. Gwelwn hwn fel gyriant i'r angen am Farchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg fydd yn cyplysu sgiliau efo anghenion gwasanaeth.

Ar hyn o bryd nid oes cynllun penodol sydd yn dylanwadu ar ffactorau megis mewnfudo, allfudo a gwerth economaidd y Gymraeg. O'r wybodaeth yr ydym wedi casglu drwy weithio yn gymunedol ar draws Cymru, mae sawl her yn bodoli ar hyn o bryd sydd angen eu taclo:

- Yn hanesyddol mae'r Gymraeg wedi dioddef o ddiffyg statws economaidd
- Nid yw'r sgil o siarad Cymraeg yn cael ei gydnabod gan ganran uchel o gyflogwyr
- Mae siaradwyr Cymraeg ifanc yn gadael Cymru a'u bröydd genedigol i chwilio am waith
- Mae nifer fawr sydd yn mynchu addysg cyfrwng Cymraeg yn colli'r iaith oherwydd diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle tu hwnt i addysg ffurfiol
- Does dim trosglwyddo iaith yn digwydd o fewn nifer o deuluoedd oherwydd diffyg statws a gwerth i'r Gymraeg.
- Mae anhawster cyson i dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg
- Mae nifer isel iawn o ddysgwyr yn dod yn rhugl yn y Gymraeg

Yn galonogol, mae esiamplau yn bodoli o sefyllfaoedd yn roi gwerth economaidd i'r Gymraeg mewn rhai ardaloedd, megis Caernarfon a Chaerdydd e.e. Ile gwelir cynydd yn y % o siaradwyr Cymraeg yn ôl cyfrifiad 2011. Gall gweld llawer o Mentrau laith a chyrff eraill yn dylanwadu ar y Farchnad Lafur trwy greu Marchnadoded Llafur Lleol Cymraeg ei hiaith. Yn achos y Mentrau maent yn cyflogi canoedd o bobl yn lleol i gynnig gwasanaethau Cymraeg a chyfleoedd i siaradwyr Cymraeg berchnogi sectorau pwysig yn eu hardaloedd: ceir engrifftiau penodol o'r Mentrau yn dylanwadu ar y nifer a'r canran o weithwyr mewn meysydd penodol trwy ddatblygu prosiectau a chynlluniau ar sail anghenion a chyfleoedd lleol, e.e. yn y maes awyr agored yng Ngogledd Cymru ac yn y meysydd gofal plant a chwarae yn y De. Mae'r un peth yn wir am fudiadau a chyrff eraill sydd yn

cyflogi a chreu cyfleoedd gwaith cyfrwng Cymraeg, ond mae yna botensial enfawr i greu mwy o swyddi a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg, mewn mwy o feysydd, mewn mwy o ardaloedd. Ein bwriad felly yw ehangu ar y gwaith yma drwy ddatblygu'r Cynllun Marchnad Lafur yn genedlaethol er mwyn gosod seiliau cadarnach i'r Gymraeg trwy'r economi.

Document is Restricted

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales**  
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee**  
**Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor / Priorities for the Committee**  
**CWLC(5) PFC15: Ymateb gan Dafydd Iwan, Prif Weithredwr SAIN / Evidence from Dafydd Iwan, Chief Executive for SAIN**

Mae yna deimlad cyffredinol yn y diwydiant cerdd fod yna ddiffyg strategaeth llwyr gan y Llywodraeth yn y maes, ac o ganlyniad mae cannoedd o gerddorion ifanc sy'n rhan o weithgarwch creadigol yn y byd roc a gwerin yn cael eu gadael heb y gefnogaeth y mae arnyn nhw ei angen. Un gymhariaeth sy'n hawdd iawn i'w wneud (ond sydd ddim yn cael ei amlygu gennym yn rhy aml rhag iddo gael ei weld fel ymgais i danseilio'r Cyngor Llyfrau) yw'r diffyg cefnogaeth i'r diwydiant cerdd ar linellau'r gefnogaeth i'r diwydiant cyhoeddi mewn print. Ond eto mae canran uwch o lawer o ieuenctid yn rhan o'r maes cerdd o'i gymharu a'r maes print. Ond yr un yw'r sefyllfa o safbwyt maint y gynulleidfa, a'r problemau sy'n deillio o hynny.

Mae cwmni Sain, fel pob cwmni a label arall yn y sector, yn wynebu argyfwng gwirioneddol oherwydd y chwyldro digidol, a'r modd y mae pobol bellach yn medru gwrandu ar gerddoriaeth oddi ar y We, heb dalu, neu am daliad bychan. Ar un adeg, tua 15 mlynedd yn ol, roedd Sain yn cyflogi tua 40 o bobol; bellach, mae'r nifer yn llai na 20, ac yn debygol o leihau eto er mwyn ceisio cadw'r cwmni i fynd.

Ar hyd y blynnyddoedd, mae Sain yn falch wedi helpu'r diwydiant yng Nghymru i adeiladu ar seiliau cadarn sy'n rhoi cefnogaeth deg i artistiaid a chyfansoddwyr. Sain ddechreuodd y drefn o dalu breindal i gerddorion, ac o sefydlu trefn deg o gofrestru caneuon gyda'r cyrff cofrestru. Ers degawdau, bu'n trafod gyda'r cyrff hynny (PRS, MCPS a PPL yn bennaf), yn ogystal a'r darlledwyr yng Nghymru, ar ran cerddorion Cymru, a bu'n flaengar wrth sefydlu Cynghrair Cerddorion a Chyhoeddwyr Cymru ac Eos, y corff casglu a sefydlwyd ar ran cyfansoddwyr Cymru (ac sydd wedi ychwanegu'n sylweddol at eu hincwm, er na fu'r Tribiwnlys yn gwbl lwyddiannus). Bob blwyddyn, y mae Sain (a Chyhoeddiadau Sain) yn dosbarthu cannoedd o filoedd o bunnoedd i artistiaid a chyfansoddwyr, arian sy'n deillio o werthiant CDau a darllediadau a pherfformiadau cyhoeddus. Ond mae'r incwm hwn yn lleihau'n gyflym oherwydd bygythiad y We, a'r achubiaeth bellach yw datblygu gwasanaeth ffrydio ("streaming") tebyg i Spotify ar gyfer cerddoriaeth a gynhyrchir yng Nghymru, a dyna yw APTON, a fydd yn cael ei lawnsio y mis nesa.

Un o gryfderau Apton yw y bydd yn gwasanaethu holl labeli Cymru (gydag ambell i eithriad yn unig), ac yn talu cyfran llawer iawn tecach i'r cerddorion (30 gwaith mwy na chyfradd Spotify). Unwaith eto, Sain sydd wedi arwain ar hyn, ond mae'n bwysig pwysleisio bod rhaid canfod ffordd ymlaen sy'n mynd i fod o gymorth i bob cwmni a phob label sydd o ddifri am roi llwyfan i dalentau cerddorol Cymru. A dyna pam mae prosiect APTON mor allweddol: bydd yn rhoi llwyfan i bob label Gymreig, ac yn talu breindal llawer gwell na

Spotify i'r artistiaid. Y gobaith yw ei ddatblygu fel llwyfan Masnach Deg i gerddoriaeth diwylliannau "lleiafrifol" eraill ar draws y byd, ac eisoes mae diddordeb mawr gan wledydd Celtaidd, a gwledydd Affrica ac Asia. Cafwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i greu model Apton, ond mae gwir angen cyllid sylweddol i hyrwyddo'r gwasanaeth fel y gall gystadlu a dal ei dir gyda'r enwau mawr rhyngwladol.

Ond yr angen mwyaf yw arian cyhoeddus a fydd yn gefn i'r gweithgarwch gwych ac amrywiol sy'n digwydd yn y byd roc/pop/gwerin/jas yng Nghymru. O symleiddio'n fawr, mi fyddwn i'n dweud mai ym maes darparu a chynnal lleoliadau ac adnoddau ar gyfer perfformwyr, ac yn y maes trefnu a hyrwyddo y mae angen i'r gefnogaeth hon ganolbwytio. Byddai cyllideb tebyg i gyllideb y Cyngor Llyfrau yn fwy na digon i wneud y gwaith hwn yn llwyddiannus iawn, ond byddai £250,000, dyweder, yn gychwyn da. A byddai Cynghrair Cerddorion a Chyhoeddwyr Cymru yn barod iawn i gynghori ar hyn. (Er nad yw'n cael cefnogaeth y Llywodraeth bellach, mae'r WMF (Sefydliad Cerdd Cymru) yn dal mewn bod, a byddai'raelodau hynny hefyd wrth gwrs yn barod iawn i helpu).

Mae Dafydd Meirion Roberts, Prif Weithredwr cwmni Sain, wedi bod yn flaenllaw mewn llawer o'r trafodaethau hyn, a dyma sut y mae'n crynhoi'r prif bwyntiau:

- Mae angen strategaeth glir ar gyfer datblygu y diwydiant cerdd yng Nghymru.
- Ar ôl i'r MEU fyddsoddi £350k yn WOMEX 13, roedd yr ymateb yn wych, a'r potensial o ddatblygu cynllun allforio cerddoriaeth yn amlwg, ond wedyn y Llywodraeth yn stopio ariannu'r WMF (sef partner yn Cerdd Cymru:Music Wales a lwyddodd i ddenu Womex i Gaerdydd)
- Does dim corff ar hyn o bryd yn cynrychioli'r diwydiant ers i'r Llywodraeth stopio ariannu'r WMF – mae vacuum enfawr, a dim byd dros dro gan y Llywodraeth – mae'r momentwm a grewyd gan Womex yng Nghaerdydd wedi ei golli (ac felly gwerth y buddsoddiad).
- Mae angen asianateth ar gyfer allforio cerddoriaeth Cymru
- Mae angen cynllun datblygu sylfaenol fel y 'Young Promoters Network' yn y cymoedd, ar draws Cymru i ddatblygu sgiliau a thalentau yn y diwydiant.
- Pam nad oes cymorth i'r diwydiant recordio fel sydd i bob cyfrwng Cymraeg arall (Radio, Teledu, Print)?
- Os ydi'r Llywodraeth yn sefydlu asiantaeth hyd braich, (The Creative Wales Agency?) mae angen sicrhau fod yna arbenigedd a chynrychiolwyr o'r diwydiant ar y panel, a rheini yn rhai cyfoes sy'n gweithio yn y diwydiant ar hyn o bryd.
- Heb y strategaeth mae nifer o grwpiau yn mynd at gwmniau yn Lloegr, ac felly mae'r ymelwa o'r Eiddo Deallusol hefyd yn cael ei golli i Gymru.

- Beth ydi rôl y Cyngor Celfyddydau yn hyn i gyd? Beth yw eu polisi o ran cefnogi gweithgareddau celfyddydol masnachol sy'n dod ag elw a budd i'r economi?

Document is Restricted